CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL GRŴP COLEGAU NPTC

2025 – 2026

Cytunwyd gan:

Grŵp Colegau NPTC

Y Bwrdd Llywodraethwyr

a'r Uwch Dîm Rheoli

Llofnodwyd ar ran Grŵp Colegau NPTC:

Mark Dacey: Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 19eg Rhagfyr 2025

TABL CYNNWYS

	Tudalen
Terminoleg a Diffiniadau	3
Geirfa	4
Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol	
Trosolwg Strategol	6
Rhan A: Hunanarfarniad o Gamau Gweithredu Craidd ar gyfer Arweinyddiaeth	13
Rhan B: Cynllun Gweithredu - Nodau Allweddol	18
Nod 1: Cwricwlwm	19
Nod 2: Diwylliant (DPP)	27
Nod 3: Diwylliant (Data 1)	32
Nod 4: Diwylliant (Data 2)	38
Nod 5: Diwylliant (Arbenigedd a Dirnadaeth)	39
Nod 6: Hinsawdd (Recriwtio)	43
Nod 7: Hinsawdd (Ansawdd a Systemau)	47
Nod 8: Hinsawdd (Asesiadau Effaith)	49
Nod 9: Hinsawdd (Arfer Gorau)	51
Nod 10: Cyfathrebu	53

TERMINOLEG A DIFFINIADAU

Profiad Cyfunol o Hiliaeth

Pan fo angen cyfeirio at y profiad cyfunol o hiliaeth, defnyddir y termau 'Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' ynghyd â 'lleiafrifoedd ethnig' fel fersiwn byr. Lle bo modd, defnyddir y term pobl ac nid cymunedau.[1]

Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)

Diffinnir SABau fel Grwpiau Colegau Addysg Bellach, Colegau AB a Cholegau Chweched Dosbarth.

[1] Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, Tudalen 12.

GEIRFA

CAADY:	Cydlynydd Anghenion Addysg Dysgu Ychwanegol
PC:C:	Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm
PC:AU	Pennaeth Cynorthwyol: Addysg Uwch
PC:A:	Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd
PC:M	Pennaeth Cynorthwyol: Myfyrwyr
PC: DSW	Pennaeth Cynorthwyol: Dysgu Seiliedig ar Waith
CGGH:	Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol
PSG:	Prif Swyddog Gweithredol
RhSC:	Rheolwr Sgiliau Craidd
C:A	Cyfarwyddwr: Academaidd
CADAD:	Cyfarwyddwr Arloesi Digidol mewn Addysgu a Dysgu
GSCACh:	Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
RhA:	Rheolwr Arholiadau
CGA:	Cyngor y Gweithlu Addysg
SABau:	Sefydliadau Addysg Bellach
AB:	Addysg Bellach
PSGB:	Pennaeth Systemau Gwybodaeth Busnes
PY:	Pennaeth yr Ysgol
PMCh:	Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
CAD:	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
GSCoDd:	Grŵp Strategaeth Cyflogwr o Ddewis
CYG:	Cydbwyllgor Ymgynghorol Gwybodus
NPTC:	Coleg Castell-nedd Port Talbot
GGCCPT:	Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot
P: DBSG	Pennaeth: Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol
RhA:	Rheolwr Ansawdd
ASC:	Academi Sgiliau Cymru
RhDDS:	Rheolwr Dysg a Datblygiad Staff
CCS:	Cynllun Cydraddoldeb Strategol

UDd:	Uwch Ddarlithydd
UDd:CS:	Uwch Ddarlithydd Cynnydd a Sgiliau
UDd:AD	Uwch Ddarlithydd Addysgu a Dysgu
UDRh:	Uwch Dîm Rheoli
US: CACh:	Uwch Swyddog: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
USCLIChM:	Uwch Swyddog Cynnwys, Lles a Chynhwysiant Myfyrwyr
CGCB:	Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, a Bygythiadau
RhAD:	Rheolwr Addysgu a Dysgu
IB:CLl	Is Bennaeth: Corfforaethol a Llywodraethu

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL 2025-2026

GRŴP COLEGAU NPTC

TROSOLWG STRATEGOL

1. CYFLWYNIAD I'N CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL

Pwy ydym ni?

Daeth Grŵp Colegau NPTC (Y Coleg) i fodolaeth ar 1 Awst 2013 pan unodd Coleg Castell-nedd Port Talbot â Choleg Powys. Mae'n un o'r darparwyr Addysg Bellach (AB) mwyaf yng Nghymru o ran niferoedd dysgwyr, gyda thua 10,000 o ddysgwyr ac mae 4,000 ohonynt yn llawn amser. Mae'r Coleg yn cyflogi tua 840 o staff ac mae ganddo drosiant blynyddol o tua £70 miliwn. Mae'n darparu ar gyfer bron i 30 y cant o dir y wlad. Mae'r Coleg yn cynnig portffolio mawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, yn gyrsiau llawn amser a rhan amser, ar draws ei 8 safle i fwy na 270,000 o drigolion ar draws De i Ogledd Cymru.

Mae'r pedwar prif Goleg wedi'u lleoli yn Afan, Bannau Brycheiniog, Castell-nedd a'r Drenewydd ac ynghyd â'r safleoedd yn Llandarsi, Maesteg, Pontardawe ac Abertawe, maent yn darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer bron pob maes galwedigaethol, gan gynnwys yr Academi 6ed Dosbarth yng Ngholeg Castell-nedd a'r Academi Chwaraeon ragorol sydd wedi'i lleoli yn Llandarsi.

Mae'r Coleg hefyd yn Bartner Arweiniol i bedwar ar ddeg o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi'u casglu at ei gilydd at ddibenion darparu addysg a hyfforddiant o dan Gontract Prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith Llywodraeth Cymru. Gelwir y Bartneriaeth Dysgu Seiliedig ar Waith hon ar y cyd yn Academi Sgiliau Cymru (ASC).

Mae'r Coleg yn ymfalchïo mewn rhaglen addysg uwch o ansawdd rhagorol, a ddarperir mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Wrecsam, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Pearson. Mae'n cyflwyno mwy na 40 o raglenni addysg uwch gan gynnwys Graddau BSc (Anrh) a BA (Anrh), Graddau Sylfaen, HNDs, HNCs, Diplomâu mewn Addysg Uwch, Tystysgrifau Addysg Uwch a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg / Tystysgrif Broffesiynol i Raddedigion. Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach.

Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Ystyrir bod hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith, a datganiad cenhadaeth y Coleg yw:

> "Ysbrydoli dysgu, cyfoethogi bywydau, sicrhau llwyddiant".

Ategir hyn gan y Weledigaeth y bydd y Coleg yn cyflawni'r canlynol:

- Partner allweddol mewn rhwydweithiau strategol;
- Coleg sy'n cyflwyno addysgu a dysgu rhagorol;
- Coleg mentrus ac entrepreneuraidd;
- Coleg sy'n paratoi dysgwyr yn llwyddiannus ar gyfer cynnydd cadarnhaol;
- Arweinydd cydnabyddedig mewn defnyddio technoleg;

- Cyflogwr o ddewis;
- Dewis y cyflogwyr ar gyfer dysgu ac ymgysylltu;
- Coleg sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi drwy wella ffyniant economaidd;
- Coleg sy'n hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae datganiadau gwerth ein Coleg yn ein hymrwymo ni i gael ein 'rhwymo gan degwch ac amrywiaeth fel ein hegwyddorion arweiniol'. Maent yn nodi ein hymrwymiadau o ran ein dull o weithredu i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf drwy gyflawni'r canlynol;

- Dysgwyr a dysgu yn ganolog i'n gweithredoedd;
- Gofalgar a chynhwysol yn ein hagweddau;
- Cyfrifol a pharchus yn ein hymddygiad;
- Wedi ymrwymo i degwch ac amrywiaeth fel ein hegwyddorion arweiniol;
- Proffesiynol a chorfforaethol yn ein hymddygiad;
- Mentrus ac arloesol yn ein hagwedd;
- Goddefgar a chefnogol yn ein hymatebion.

Demograffeg ethnigrwydd

Mae'r Coleg yn cael ei wasanaethu yn bennaf gan ddau awdurdod lleol, Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o 142,300, gyda phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 3.4% (4,500) o'r boblogaeth. Mae Powys yn gorchuddio chwarter arwynebedd tir Cymru ac mae ganddi boblogaeth o 129,700 gyda phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 1.5% (1,900) o'r boblogaeth. Mae'r Coleg, drwy ei safleoedd lloeren a'i bartneriaid, yn darparu ar draws nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad llawn o'r data ar gyfer yr holl awdurdodau lleol perthnasol, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Phowys.

Mae proffil staff y Coleg yn dangos, yn 2024, bod 1.7% o aelodau'r staff wedi nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i ddenu a phenodi staff newydd o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae angen gwneud rhagor o waith ym maes cadw staff. Mae Atodiad B yn rhoi dadansoddiad llawn o ddata ethnigrwydd y staff ar gyfer 2024.

O ran proffil y myfyrwyr, mae gan sir Castell-nedd Port Talbot boblogaeth myfyrwyr SAB o 5521 o ddysgwyr, gyda phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 5% (245) o'r boblogaeth. Mae gan Bowys boblogaeth SAB o 1154 o ddysgwyr, gyda phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynrychioli 4% (57) o'r boblogaeth.

Ar draws y Coleg, ym mlwyddyn academaidd 2021/22, roedd 8247 o ddysgwyr wedi'u lleoli mewn SAB, gyda 5.4% (447) yn nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ar gyfer yr un cyfnod, roedd gan y Coleg 1788 o Ddysgwyr Seiliedig ar Waith, gyda 3.3% (59) ohonynt yn nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad llawn o ddata'r myfyrwyr.

2. Y WELEDIGAETH, Y PWRPAS A'R GWERTHOEDD SY'N SAIL I'N CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL

Rydym yn cydnabod yr hiliaeth sefydliadol, systemig a phob dydd sy'n bodoli yn ein cymdeithas ehangach ac nad oes gan addysg bellach imiwnedd i'r broblem hon. Rydym yn deall bod gennym ddyletswydd i ddileu hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol drwy addysg.

Yng Ngrŵp Colegau NPTC rydym wedi gwneud ymrwymiad ar y cyd i wrando ar brofiadau ein staff, ein dysgwyr a'n prentisiaid, eu rhannu a'u deall yn well, dysgu o'r difaterwch a chymryd camau cadarnhaol i gael ein cydnabod fel coleg sy'n cynnal diwylliant cwbl wrth-hiliol. Rydym yn credu mai dim ond drwy wrando y gallwn ni gymryd camau ystyrlon tuag at newid.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hiliaeth yn ei holl ffurfiau er mwyn sicrhau bod ein profiad addysg yn un sy'n ddiogel, yn barchus ac yn gynhwysol i bobl o bob cefndir ethnig a hiliol. Rydym yn addo sefyll yn erbyn hiliaeth yn ein coleg ac yn y gymuned ehangach. Rydym yn gwahodd ein staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid i wneud yr un ymrwymiad i sicrhau bod y Coleg yn lle croesawgar i bawb. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harferion a'n diwylliant ac wedi'i ymgorffori'n ganolog yn ethos ein coleg.

Byddwn yn dysgu o'r profiadau byw hynny ac yn pennu disgwyliadau ac atebolrwydd clir, gan ymdrechu a herio ein hunain i wneud yn well bob amser.

Felly, ein gweledigaeth a'n cyfrifoldeb ni yn syml yw peidio â bod yn hiliol, ond bod yn amlwg ac yn weithredol wrth-hiliol.

Rydym yn credu bod cyfle cyfartal wrth galon popeth rydym yn ei wneud ac yn ganolog i gyflawni ein cenhadaeth a hyrwyddo llwyddiant i'n holl fyfyrwyr. Mae Grŵp Colegau NPTC yn sefydliad cynhwysol ac mae'n credu ei bod yn hanfodol bod holl aelodau cymuned y Coleg yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial. Un elfen bwysig o'r weledigaeth hon yw bod yr holl staff a'r myfyrwyr yn teimlo bod eu cefndir hiliol yn cael ei gydnabod a'i ddathlu a'i fod yn cael ei weld fel elfen sy'n ychwanegu at lwyddiant cyffredinol y Coleg.

3. Y BROSES O DDATBLYGU EIN CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL

Er mwyn sicrhau bod ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn berthnasol rydym wedi cael ein harwain gan Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, y Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Coleg wedi gweithio i sicrhau bod y cynllun hwn yn amserol ac yn gynhwysfawr drwy ei gysylltu â'r amcanion y manylir arnynt yng Nghynllun Strategol y Coleg, gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru.

Ar ddechrau ein siwrnai yn 2023, daeth ein Uwch Dîm Rheoli ynghyd ag aelodau allweddol o Fwrdd y Llywodraethwyr at ei gilydd i edrych ar bedwar maes allweddol, sef cwricwlwm, diwylliant, hinsawdd a chyfathrebu ac i werthuso ein harfer gwrth-hiliol ar draws y meysydd hyn. Bu'r wybodaeth a'r ddirnadaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer hwn, ynghyd â dadansoddiad ystadegol o Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol y Coleg (data'r staff) ac o'n Hadroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Myfyrwyr (data'r myfyrwyr), yn sail i ddatblygiad y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol.

Rydym hefyd wedi cydnabod bod agweddau ar ein gwaith o gasglu data'n datgelu cyfradd ddatgelu isel ar gyfer nodweddion hil. Er mwyn gwneud iawn am hyn a sicrhau ein bod yn symud tuag at ddealltwriaeth well o amrywiaeth ethnig ein rhanddeiliaid, rydym wedi cynnwys nodau sy'n ymwneud yn benodol â gwella ansawdd data a datgelu data.

Mae ymgysylltu â'n myfyrwyr a'n staff wedi darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer pennu ein nodau. Mae'r gweithgareddau wedi ein helpu ni i ddeall profiadau ac anghenion ein myfyrwyr a'n staff ac wedi ein helpu i lunio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol.

Ym mis Mawrth 2023, ymgynghorodd y Coleg â staff a myfyrwyr ar ein nodau drafft. Cyhoeddwyd holiadur ar-lein a oedd yn gofyn sawl cwestiwn penagored. Roedd yr ymatebwyr yn gallu ymateb yn ddienw er mwyn annog cyfradd ymateb uwch, fodd bynnag, rhoddwyd manylion cyswllt i'r staff a'r myfyrwyr i gofrestru diddordeb posibl mewn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Mae'r grwpiau ffocws yn parhau i fod yn gam gweithredu parhaus i'r Coleg, gyda'r disgwyl y byddant yn dylanwadu ar y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol yn y dyfodol.

Ym mis Medi 2024, lansiodd y Coleg ein Fforwm Staff Mwyafrif Byd-eang. Mae'r grŵp, dan gadeiryddiaeth ein US: CACh, yn darparu lle diogel a chefnogol i gydweithwyr rannu profiadau byw ac archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chydweithredu. Mae'r CGGH wedi cael ei rannu a'i drafod gyda'r grŵp, y mae ei fewnbwn wedi bod yn allweddol wrth lunio'r nodau sydd wedi'u datgan yn y cynllun.

Ers 2023 rydym wedi ymgynghori'n helaeth â'r grŵp cymunedol Chai and Chat, y mae'r Coleg yn ei gynnal ar y cyd â GGCCPT. Mae'r grŵp bellach yn cynnwys mwy na 55 o aelodau sy'n cynrychioli mwy na 18 cenedligrwydd ac mae'n parhau i dyfu. Mae'r platfform yma wedi ein galluogi i gasglu adborth a gwybodaeth amhrisiadwy o brofiadau byw sydd wedi bod yn sail uniongyrchol i'n nodau ac wedi dylanwadu ar y camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio.

Yn dilyn yr adolygiad cynnydd ym mis Mawrth 2025, dechreuodd grŵp Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol y Coleg gyfnod o hunanasesu ac adolygu. Cynhaliodd y grŵp hwn, a oedd yn cynnwys prif awduron y CGGH, werthusiad manwl o gyflawniadau, heriau a meysydd i'w gwella. Roedd y broses adolygu'n cynnwys ailedrych ar nodau allweddol, cynnydd yn erbyn canlyniadau mesuradwy a nodi cyfleoedd i gryfhau ein dull gweithredu. Mae hyn wedi arwain at Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol o'r newydd ar gyfer 2025/26.

4. Y CYD-DESTUN AR GYFER EIN CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL

Ble rydym ni nawr

Fel darparwr addysg i fwy na 10,000 o fyfyrwyr, rydym yn ymfalchïo ein bod 'yn rhwym wrth degwch ac amrywiaeth fel ein hegwyddorion arweiniol'. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gennym gryn dipyn o waith i'w wneud i ddod yn gynrychioliadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yn enwedig ein poblogaeth o staff. Er bod ein proffil myfyrwyr yn cyd-fynd yn well â data'r awdurdod lleol a data cenedlaethol, mae ein proffil staff yn is na'r prif gyfartaledd awdurdod lleol a chenedlaethol.

Er bod y gwaith rydym wedi'i wneud wedi arwain at welliannau ym mhroffil staffio amrywiaeth ethnig y Coleg, nid ydym yn gynrychioliadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gwella amrywiaeth ein staff wedi bod yn faes ffocws ers peth amser a

bydd yn parhau i fod. Rydym yn cydnabod ei bod yn hollbwysig bod gan ein myfyrwyr fodelau rôl gweladwy ym mhob maes o'r Coleg ac ar bob lefel. Rydym yn credu y bydd gweithlu addysgu amrywiol, a thîm arwain amrywiol, yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-gred ac uchelgais ein myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac y bydd o fudd i bob un myfyriwr.

Mae gennym Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh) wedi'i sefydlu sy'n goruchwylio gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Arweinir y Grŵp Strategaeth CACh gan aelod o'r tîm Gweithredol, y Pennaeth: Dirprwy BSG, ac mae ganddo linellau adrodd clir i'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae gan y grŵp gynrychiolaeth ar gyfer grwpiau staff o bob rhan o'r Coleg, gan gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cynrychiolaeth well ar gyfer rhai o'r nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym yn deall ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae gan y Coleg Gynllun Cydraddoldeb Strategol cynhwysfawr, sy'n cyd-fynd â strategaeth gyffredinol y Coleg a chaiff cynnydd yn erbyn ein nodau ei fonitro gan y Grŵp Strategaeth CACh. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am ein gweithlu drwy ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, a defnyddir dadansoddiad o'r data a gynhyrchir fel sail i'n CCS. Rydym yn cyhoeddi ein data myfyrwyr drwy ein Hadroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Myfyrwyr. Fel rhan o'r cynllun hwn, ein nod yw adeiladu ar ein sylfaen bresennol a chyhoeddi data ein corff llywodraethu. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi ein cynnydd yn erbyn y CGGH a'n CCS.

Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith sy'n ein galluogi i ymdrin â micro-ymosodedd, gwahaniaethu ar sail hil ac aflonyddu. Yn ystod eu cyfnod sefydlu, hysbysir staff o'r prosesau ac atgyfnerthir hyn fel rhan o'r hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n orfodol i'r holl staff.

Mae gennym broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb gadarn ar waith ar gyfer polisïau, arferion a phrosiectau. Mae'r broses hon yn sicrhau bod mentrau'n cael eu hasesu am eu heffaith bosibl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n cynnwys nodi a mynd i'r afael yn systematig ag unrhyw risgiau o wahaniaethu, hyrwyddo tegwch, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a moesegol. Drwy ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, ein nod yw creu canlyniadau teg i bob rhanddeiliad a meithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol.

Mae'r Coleg yn falch o'i gysylltiadau cymunedol rhagorol, sy'n ganolog i'n hymrwymiad i gynhwysiant a chydweithredu. Drwy bartneriaethau â sefydliadau lleol fel GGCCPT a mentrau fel y grŵp cymunedol Chai and Chat, rydym wedi meithrin perthnasoedd ystyrlon sy'n meithrin ymddiriedaeth a chefnogaeth gydfuddiannol. Mae'r cysylltiadau hyn yn ein galluogi i ymgysylltu â lleisiau amrywiol, dysgu o brofiadau byw, a chyd-greu cyfleoedd sy'n fuddiol i'n dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae ein dull o weithredu'n sicrhau bod y Coleg yn parhau i fod yn sefydliad bywiog ac ymatebol sy'n adlewyrchu ac yn dathlu cyfoeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ble rydym ni eisiau bod

Drwy'r nodau sydd wedi'u datgan yn ein cynllun, ein nod ni yw cyfrannu at weledigaeth gyffredinol Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, i wella addysg, cyfleoedd bywyd a

chyfleoedd cyflogaeth i bobl yn y Coleg ac yn ein cymunedau sy'n Ddu, yn Asiaidd ac yn Lleiafrifoedd Ethnig.

Ein hamcan sylfaenol yw creu diwylliant Gwrth-Hiliol sydd wrth galon y Coleg, sydd wrth wraidd pob agwedd ar addysg ein dysgwyr a'n prentisiaid ac yn greiddiol ym mhob agwedd ar fywyd gwaith ein staff.

Ein nod yw cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Parhau i ddileu unrhyw wahaniaethu neu ficro-ymosodedd a all fodoli ar gyfer ein staff neu ein dysgwyr, drwy addysg, hyfforddiant a datblygiad a gefnogir gan bolisïau, prosesau ac arferion cadarn.
- Bod â phoblogaeth staff amrywiol gyda gwell cyfleoedd datblygu gyrfa ar gyfer ein staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig drwy hyfforddiant, datblygiad, mentora a chynghreiriaeth.
- Gwella'r cyfleoedd addysg a bywyd i'n dysgwyr a'n prentisiaid drwy fod â chwricwlwm gwrth-hiliol, cynhwysol sy'n ysbrydoli ac yn addysgu ein dysgwyr a thrwy fod â modelau rôl gweladwy ym mhob maes ac ar bob lefel ar draws y sefydliad.
- Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cyflawniad ar gyfer ein dysgwyr a'n prentisiaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

I grynhoi, rydym eisiau i'r Coleg fod yn ofod diogel a chroesawgar sy'n gynhwysol i bawb ac sy'n galluogi pawb i ffynnu a chyflawni eu llawn botensial.

Sut byddwn yn darparu adnoddau ar gyfer ein cynllun

Cefnogir y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol gan Fwrdd y Llywodraethwyr a neilltuir cyfrifoldebau i'r Uwch Dîm Rheoli, gyda chefnogaeth rheolwyr allweddol ar draws y Coleg. Bydd yr Uwch Swyddog Cynnwys a Lles Myfyrwyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n ymwneud â dysgwyr a phrentisiaid. Yn ogystal, mae'r Coleg, wrth ddeall ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i rôl yn cyfrannu at y weledigaeth o Gymru'n dod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030, wedi penodi Uwch Swyddog sydd â chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r Uwch Swyddog yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso gweithredu'r cynllun gweithredu a chefnogi'r agweddau hynny sy'n ymwneud yn benodol ag ymgysylltu â staff a chymunedau.

5. EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER ADEILADU SYLFAEN GADARN I HYBU GWRTH-HILIAETH

Yn 2025/2026 ein blaenoriaethau ni yw;

- Datblygu ein gwybodaeth, ein gallu a'n hyder i ddylunio a gweithredu cwricwlwm gwrth-hiliol.
- Adolygu, asesu effaith a datblygu ein cwricwlwm i sicrhau ei fod yn hyrwyddo cynhwysiant a chamau gwrth-hiliol.
- Ymgynghori â'n staff a'n myfyrwyr yn ehangach drwy arolygon a grwpiau ffocws i sicrhau bod ein gweithredoedd yn wybodus ac yn briodol.
- Datblygu a chyflwyno cynllun cynghreiriaeth i staff a dysgwyr.
- Datblygu a chyflwyno cynllun mentora staff.

Byddwn hefyd yn parhau i wneud y canlynol;

- Adeiladu ar ein hymgysylltu â grwpiau cymunedol.
- Adeiladu ar ein dysgu a'n dealltwriaeth o wrth-hiliaeth drwy addysg, hyfforddiant a datblygiad.
- Adolygu ac asesu effaith ein polisïau, prosesau ac arferion i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cynhwysiant ac egwyddorion gwrth-hiliaeth.

6. ATEBOLRWYDD AM HYBU GWRTH-HILIAETH

Y Grŵp Strategaeth CACh, a arweinir gan y Pennaeth / Dirprwy BSG, sy'n atebol am gyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol a hyrwyddo gwrth-hiliaeth. Fel aelod o'r Tîm Gweithredol ac Uwch Ddeiliad Swydd, bydd y Pennaeth / Dirprwy BSG yn adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd y Llywodraethwyr ar gynnydd, a bydd y grwpiau hyn yn dal y Grŵp Strategaeth CACh yn atebol am gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun.

RHAN A

Grŵp Colegau NPTC

HUNANARFARNIAD

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL CYMRU

CAMAU GWEITHREDU CRAIDD AR GYFER ARWEINYDDIAETH

HUNANARFARNIAD GRŴP COLEGAU NPTC 2022/2023: CAMAU GWEITHREDU CRAIDD AR GYFER ARWEINYDDIAETH

Mae fframwaith hunanarfarnu ar gyfer sefyllfa bresennol y SABau mewn perthynas â Chamau Gweithredu Craidd Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru ar gyfer Arwain Cyrff Cyhoeddus, Gwirfoddol a Phreifat a gyllidir gan Lywodraeth Cymru wedi'i nodi isod. Dylid cynnwys unrhyw gamau pellach sy'n ofynnol gan y SAB i fodloni'r Craidd yn Rhan B o dan y nodau priodol.

CAM GWEITHREDU CRAIDD	Y SEFYLLFA BRESENNOL	CAM(AU) GWEITHREDU PELLACH	Cyf. Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol SAB
Cam Gweithredu Craidd 1: Ymrwymiad cadarn i arwain o'r blaen a'i ddangos o ran gwerthoedd gwrth-hiliol, ymddygiad, cynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad a mesurau atebolrwydd.	1.1 Er y cydnabyddir nad yw'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd y Llywodraethwyr yn amrywiol o ran hil, mae gennym eiriolwyr cadarn yn y ddau grŵp, sydd wedi arwain at gamau cadarnhaol i arallgyfeirio'r corff llywodraethu ymhellach. 1.2 Er bod gennym eiriolwyr cadarn dros wrth-hiliaeth a CACh, byddai ein tîm arwain yn cael ei gryfhau drwy gael hyfforddiant ffurfiol ar 'Gynghreiriaeth'. 1.3 Nid yw proffil y staff *Du a gyflogir gan y Coleg yn adlewyrchu demograffeg y corff myfyrwyr (O'r data diweddaraf sydd ar gael (2020/21) mae'n 5%). O gymharu, mae'r proffil staff yn 1.7% o staff yn nodi eu bod yn *Ddu. Er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i ddenu ymgeiswyr *Du (7.7% 2022, 6.3% 2020, 4.2% 2019), a bod y gyfradd trosi o wneud cais i restr fer wedi gwella, mae angen i ni wella nifer y penodiadau a wneir a gwella cyfraddau cadw. 1.4 Mae'r Grŵp Rheoli Amrywiaeth (GRhA) yn grŵp wedi'i sefydlu sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd â chyfrifoldeb strategol am y CCS a'r CGGH. Mae cynrychiolaeth o bob rhan o'r	1.1 Cymerwyd camau cadarnhaol i arallgyfeirio'r corff llywodraethu ac mae hyn wedi arwain at benodi llywodraethwr *Du i sicrhau bod cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Bydd cyfleoedd pellach i amrywio'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli yn cael eu harchwilio wrth iddynt godi. 1.2 Darparu a dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi a datblygu addas, gan ei wneud yn ofyniad hanfodol ar draws yr holl swyddi arweinyddiaeth. 1.3 Parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned a gwella proffil y Coleg fel 'Cyflogwr o Ddewis' ar gyfer ymgeiswyr o gefndiroedd *Du. Sefydlu'r rhesymau dros y gwelliannau diweddar yn nifer yr ymgeiswyr *Du yn ystod y blynyddoedd diwethaf a datblygu camau gweithredu i adeiladu ar hyn yn gadarnhaol. Asesu effaith y broses recriwtio a dethol i nodi rhwystrau a chyfleoedd. 1.4 Parhau i amrywio aelodaeth y GRhA a datblygu llwybr ar gyfer adborth gweithredol gan y grwpiau ffocws a ffurfiwyd fel sail i'n CGGH a'n CCS.	3.1 2.1, 6.1, 6.2,6.3, 8.1 6.1, 6.2, 6.3 5.1, 5.2, 5.3

	sefydliad ond mae angen gwella'r gynrychiolaeth *Ddu yn y grŵp.	1.5 Bod yn aelod o'r Grŵp Arwain Pobl Dduon ac ymrwymo i gymryd rhan mewn hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth sy'n canolbwyntio ar y Cynllun 10 Pwynt.	9.1
Cam Gweithredu Craidd 2: Cymryd rhan yn yr holl benderfyniadau a'r uwch grwpiau arwain mewn ffordd sy'n galluogi i brofiadau byw pobl o leiafrifoedd ethnig gael eu clywed a sicrhau gweithredu yn eu cylch.	2.1 Fel Coleg, mae gennym fynediad cyfyngedig iawn at staff neu fyfyrwyr sydd â phrofiadau byw i'n helpu fel sail i benderfyniadau. Fel rhan o broses ymgynghori'r CGGH, rydym wedi gofyn i staff neu fyfyrwyr â 'phrofiadau byw' ddod ymlaen a'n helpu i gryfhau ein gwerthoedd gwrth-hiliol ar draws y sefydliad. 2.2 Rydym wedi datblygu arolwg sy'n ceisio sefydlu profiadau pobl o weithio yn y Coleg drwy lens cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan roi sylw arbennig i gydraddoldeb hiliol). 2.3 Penodi USCMLICh i gefnogi myfyrwyr a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y corff myfyrwyr a'r staff i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed a'u cyflwyno i'r UDRh a meysydd priodol o fewn y Coleg. 2.4 Penodi US:CACh i gefnogi'r holl staff, gan gynnwys yr arweinwyr, a gweithredu fel pwynt cyswllt i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed a'u cyflwyno i'r UDRh a meysydd priodol o fewn y Coleg.	2.1 Creu ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth ar draws y Coleg drwy hyfforddiant a datblygiad ac ymgysylltu â'r rhai sydd wedi cael 'profiadau byw'. Ffurfio grwpiau ffocws i fyfyrwyr a staff rannu profiadau gyda'r UDRh a staff priodol. 2.2 Mynd ati i gynnal arolwg yn rheolaidd, a chynnal adborth myfyrwyr drwy gysylltu â swyddogion Undeb y Myfyrwyr a'r USCMLICh. 2.3 Gwella proffil amrywiaeth ethnig staff ar bob lefel yn y sefydliad a thrwy hynny greu cyfleoedd i grwpiau gwneud penderfyniadau allweddol gynnwys staff o gefndir ethnig lleiafrifol gan ganiatáu i brofiadau byw gael eu clywed a gweithredu yn eu cylch.	1.1, 3.2, 3.4, 5.3, 6.1, 6.2,6.3, 7.2, 8.1, 10.3 2.1, 2.3, 5.3, 9.1, 10.2, 10.3 2.3, 3.2, 3.3, 3.4, 6.1, 6.2,

HUNANARFARNIAD GRŴP COLEGAU NPTC 2022/2023: CAMAU GWEITHREDU CRAIDD AR GYFER ARWEINYDDIAETH

CAM GWEITHREDU CRAIDD	Y SEFYLLFA BRESENNOL	CAM(AU) GWEITHREDU PELLACH	Cyf. Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol SAB
Cam Gweithredu Craidd 3: Cyflawni, o leiaf, ofynion sylfaenol Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyhoeddi'r canlyniadau mewn fforwm / platfform agored a hygyrch.	3.1 Mae'r Coleg yn cyflawni gofynion sylfaenol Deddf Cydraddoldeb 2010. Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol mewn fformat hygyrch ar ein gwefan. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am ein gweithlu drwy ein Hadroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb Blynyddol. Mae hwn hefyd ar gael ar ein gwefan mewn fformat hygyrch. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad presennol, mae proffil ethnigrwydd y Coleg wedi aros yn 1.7%. Er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i ddenu a phenodi staff newydd o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae angen rhagor o waith ym maes cadw staff. Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r wybodaeth hon, fodd bynnag rydym yn bwriadu adeiladu ar ein sylfaen bresennol a chyhoeddi data ein dysgwyr a'n cyrff llywodraethu. O ran ein proffil myfyrwyr presennol, nododd 5% o'n dysgwyr a 2% o'n prentisiaid eu bod yn Ddu*.	3.1 Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein sylfeini presennol, gan roi sylw arbennig i ddata myfyrwyr a phrentisiaethau. Rydym yn bwriadu datblygu system sy'n ymgorffori'r data myfyrwyr a dysgwyr a ffurfiwyd drwy'r CGGH. 3.2 Ceisio cyfranogiad myfyrwyr wrth ddrafftio a datblygu camau gweithredu. 3.3 Darparu data demograffig lleol a darparu data am gyflawniadau myfyrwyr a data am y nifer sy'n dilyn ac yn cwblhau prentisiaethau yn ôl ethnigrwydd. 3.4 Darparu tystiolaeth sylfaenol ar gyfer yr amcanion a'r canlyniadau yn y CCS. 3.5 Cynnwys data cydraddoldeb ar gyfer y corff llywodraethu, gan gynnwys data ethnigrwydd. 3.6 Cyhoeddi ein cynnydd yn erbyn y CGGH a'n CCS fel rhan o'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.	3.1, 3.2, 3.3,3.4, 3.5, 3.6 5.4, 7.2, 10.2, 10.3 3.1, 3.2, 3.5, 7.1 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6 3.1, 3.3 3.4
Cam Gweithredu Craidd 4: Sicrhau'r safonau gofynnol a darparu gwasanaethau sy'n ddiwylliannol sensitif a phriodol, gan gynnwys	4.1 Mae gennym wasanaethau cyfieithu ar gael, ond nid ydynt yn cael eu hyrwyddo'n eang i'r staff a'r myfyrwyr. 4.2 Mae ffurflenni cofrestru ac ymgeisio ar gael yn ddwyieithog (Cymraeg / Saesneg). Fodd bynnag,	4.1 Hyrwyddo'r gwasanaethau cyfieithu ar draws pob platfform i grwpiau staff a myfyrwyr. 4.2 Ceisio darparu llenyddiaeth ddwyieithog. Adolygu ffurflenni cofrestru ar gyfer y broses	10.1 10.1, 10.2

darparu cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.	nid ydynt ar gael yn hwylus yn yr ieithoedd eraill a siaredir gan ein myfyrwyr a'n staff presennol. 4.3 Mae gennym rai o'r cyfleusterau sylfaenol i ganiatáu darpariaethau diwylliannol ar gyfer staff a myfyrwyr, ond nid yw'r rhain wedi'u cyfeirio'n glir ac mae rhai eitemau hanfodol ar goll. Er enghraifft, mae gennym ni ystafelloedd gweddïo / myfyrio a chyfleusterau ymolchi ond efallai y bydd rhai eitemau sydd eu hangen er mwyn i'r gwahanol grefyddau fynd ati i weddïo ar goll.	ymgeisio i fyfyrwyr a sicrhau darpariaethau i allu eu cynnig yn ddwyieithog os oes angen. 4.3 Adolygu'r holl ardaloedd gweddïo / myfyrio. Darparu eitemau (fel matiau gweddïo) fel bod rhwystrau ymddangosiadol yn cael eu dileu gan ganiatáu i staff a myfyrwyr eu defnyddio'n hwylus. Cyfeirio'n glir at yr ardaloedd hyn ac addysgu'r holl staff am ble gellir dod o hyd i'r darpariaethau hyn a chreu ymwybyddiaeth.	2.5
Cam Gweithredu Craidd 5: Sicrhau polisïau a phrosesau cwynion cadarn ar gyfer aflonyddu hiliol sy'n cael eu dilysu er boddhad grwpiau lleiafrifoedd ethnig.	5.1 Mae gennym bolisïau a phrosesau cwynion cadarn ar waith ar gyfer ymdrin ag aflonyddu hiliol. 5.2 'Safonau a Chodau Ymddygiad' ar wahân i Staff a Myfyrwyr yn eu lle sy'n nodi'r ymddygiadau disgwyliedig gan y ddau grŵp a safbwynt y Coleg o ran dim goddefgarwch i hiliaeth. Mae'r staff sydd wedi cofrestru gyda CGA yn gorfod cadw at Safonau Proffesiynol CGA hefyd. 5.3 Polisïau Atal Bwlio ac Aflonyddu ar wahân i Staff a Myfyrwyr mewn mannau sy'n nodi sut gall pob grŵp adrodd am gwynion aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu hiliol. Cyfeirir staff at y Weithdrefn Gwyno i Staff a chyfeirir myfyrwyr at y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr, sydd ill dwy yn nodi'n glir yr opsiynau sydd ar gael i'r unigolyn a sut caiff y gŵyn ei rheoli. 5.4 Mae'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau uchod ar gael ar SharePoint ac yn cael eu dwyn i sylw staff a myfyrwyr newydd yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn ystod y rhaglen diwtorial E-Step.	5.1 Defnyddio sesiynau hyfforddi Cydraddoldeb a Gwrth-Hiliol i hybu ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n bodoli i herio ac ymdrin ag aflonyddu hiliol neu weithredoedd eraill o hiliaeth. 5.2 Gweithgaredd grŵp ffocws staff a myfyrwyr i gynnwys ystyriaeth o addasrwydd y gyfres gyfredol o bolisïau a gweithdrefnau, gyda'r nod o geisio argymhellion ar eu cryfhau a chodi ymwybyddiaeth.	1.1, 2.1, 2.2, 2.3, 6.1, 6.2, 6.3, 8.1 5.4

Grŵp Colegau NPTC

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL

NODAU ALLWEDDOL 2025-2026

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL GRŴP COLEGAU NPTC 2025-2026

Nod 1: Cwricwlwm Adolygiad radical o gwricwla a chymwysterau AB i adlewyrchu gwerthoedd Cymreig cyfoes, gan ymgorffori pwysigrwydd hanes trefedigaethol a'i ddylanwad ar gymdeithas yn hanesyddol ac yn awr; effaith hiliaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Gwyn; y cyfraniadau a wneir gan bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at gymdeithas.					
CAM(AU) GWEITHREDU	MESURAU PERFFORMIAD GWEITHREDOL (MPGau)	LLINELL AMSER		ARWEINYDD / TÎM	CYNNYDD
		DECHRAU	DIWEDD		
1.1 Mae cwricwla, wrth fodloni gofynion dyfarnu, yn adlewyrchu Cymru wrth-hiliol, gan gwmpasu lle bynnag y bo modd werthoedd Cymreig cyfoes, pwysigrwydd hanes trefedigaethol a chyfraniad pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at gymdeithas.					
1.1.1 Mae angen datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar sut i gyflwyno cwricwlwm gwrth-hiliol a hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ddiwylliannol. Hyfforddiant gloywi ar ragfarn anymwybodol.	Yn dilyn gwaith blaenorol o OPMS, bydd hyrwyddwyr gwrth-hiliaeth (ARCS) ar gael i ddatblygu CGGH o fewn y cwricwlwm gyda rhaglen o gefnogaeth un i un i diwtoriaid, hyfforddiant parhaus ac wedi'i dargedu ar raddfa fechan a chefnogaeth ledled y coleg gyda digwyddiadau DPP. Drwy werthuso monitro effaith hyfforddiant a datblygiad ar arferion addysgu ac addasiadau i adnoddau ac ati. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy'r SelfE (arfer hunanadlewyrchu a gyflawnir gan yr holl staff addysgu ac mae'n rhan o'r broses arfarnu).	Medi 2025 Gorffennaf 2024	Rhagfyr 2026 Rhagfyr 2026	RhDDS PC: A / RhDDS / RhA	

	Mae QIPS Cyrsiau (NEWYDD ar gyfer 25/26) yn sicrhau monitro parhaus a hunanadlewyrchu ar y strategaeth. Tîm Ansawdd.				
1.1.2 Nodi effaith a meysydd datblygu'r staff ar gyfer cyfleoedd hyfforddi pellach drwy SelfE a dulliau eraill o drafod a chofnodi effaith fel Gwerthusiadau ac ymweliadau gwybodaeth.	O fewn y rhaglen ymweliadau Gwybodaeth, bydd y CGGH yn ymddangos fel pennawd ochr yn ochr â'r 'chwiliwch am'. Mae staff hefyd yn cwblhau SelfEs ac yn cwblhau arfarniadau lle gellir mesur effaith datblygiad staff ar bynciau'r CGGH.	Gorffennaf 2024	Rhagfyr 2026 Rhagfyr 2026	PC: A / PC: C / RhDDS	
1.1.3 Hyfforddiant i staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau i herio hiliaeth a gwahaniaethu.	Staff i ymgymryd â Hyfforddiant Gwyliwr Gweithredol i gefnogi 1.1.3	Medi 2025	Rhagfyr 2026	RhDDS	
	Datblygu adnodd i'r staff adolygu adnoddau sy'n cael eu datblygu'n fewnol a'u storio'n electronig.	Medi 2025	Hydref 2026	RhDDS	
1.1.4 Datblygu dogfen adolygu cwricwlwm sy'n dangos meysydd i'w datblygu.	Mae pob tiwtor yn gwerthuso'r defnydd o iaith a chyfathrebu gwrth-hiliol ac anwahaniaethol o fewn cyd-destun yr ystafell ddosbarth, y gweithdy neu'r mannau gweithio efelychu.	Mawrth 2024	Mehefin 2026	PY / RhAD / UDdwyr	
1.1.5. Cynnal adolygiad o gynlluniau gwersi a Chynllun Gwaith.	Nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn ein cynlluniau gwersi, ein cynlluniau gwaith ac ati cyfredol. Defnyddio data i archwilio dulliau Ysgolion.	Mawrth 2024	Mehefin 2026	PC: C	

1.1.6 Nodi meysydd ar draws y cwricwlwm AB lle bodlonir y pwynt uchod. Mae hyn yn rhan ar hyn o bryd (ond heb ei asesu'n benodol) o gyrsiau CBAC Safon Uwch Cymdeithaseg, Hanes, Troseddeg, Astudiaethau Crefyddol a Seicoleg, ac AQA Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.	Nid yw cynnwys cwricwla 100% yn adlewyrchu safbwyntiau gorllewinol, Ewropeaidd, gwyn, gwrywaidd yn unig - mae'n ymestyn gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau pobl Ddu ac ar y cyrion yng Nghymru, y DU ac yn Fyd-eang - lle bo hynny'n berthnasol yn y pwnc.	Mawrth 2024	Medi 2026	RhSC / RhAD / PC: A	
1.1.7 Gwerthoedd gwrth-hiliaeth fel rhan o gymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru.	Bydd asesu canlyniadau'n cael ei fesur drwy adborth grŵp ffocws llais y dysgwr ar sut mae'r cymwysterau Safon Uwch a Galwedigaethol i ymgorffori a nodi ymwybyddiaeth o faterion gwrth-hiliol ac amrywiaeth eang.	Mawrth 2024	Mehefin 2026	PC: A / RhSC / PC: C	
1.1.8 Adolygu cynnwys pwnc i sicrhau ei fod yn herio gwahaniaethu, amrywiaeth ac yn annog cynhwysiant - gan gynnwys agweddau ar feysydd ymarferol - gwisg, gofynion diwylliannol a chrefyddol. Gan gynnwys: • Graddfa'r cwmpas. • Cyfleoedd i fyfyrwyr gwblhau dysgu annibynnol. • Gall y cwricwla ddibynnu ar ddemograffeg leol. • Nodi adlewyrchu drwy wrando ar brofiadau byw.	Archwiliad i sicrhau cydymffurfiaeth ag adolygiad cynnwys.	Mawrth 2024	Gorffennaf 2026	PC: C / PC: Myfyrwyr	

1.1.9 Ymgysylltu â phrofion peilot y Cwricwlwm Gwrth-Hiliaeth AB i sicrhau parodrwydd ar gyfer gweithredu ym mlwyddyn academaidd 23-24. Parhau i ymgysylltu ag unrhyw gynlluniau peilot pellach ac arfer gorau yn y maes hwn. 1.1.20 Defnyddio Cwricwlwm Bugeiliol Gwrth-Hiliaeth ar draws yr holl gyrsiau llawn amser gan ddefnyddio MOODLE. 1.1.21 Hwyluso Sesiynau Bugeiliol Gwrth-Hiliaeth* gyda grwpiau dethol drwy ddefnyddio E-Step MOODLE. *Sesiynau i'w cyflwyno gan staff hyfforddedig 1.1.22 Defnyddio Cwricwlwm Pwnc Gwrth-Hiliaeth ar draws yr holl gyrsiau llawn amser perthnasol.	Grwpiau ffocws myfyrwyr i roi sicrwydd bod myfyrwyr yn cwblhau ac yn cael cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol ac ymarfer adlewyrchol. Staff yn ymgysylltu â meysydd a deunyddiau cwricwlwm. Pob dysgwr llawn amser yn ymgysylltu ag E-Step MOODLE. Y grŵp peilot yn cwblhau'r sesiynau bugeiliol Gwrth Hiliol fel rhan o raglen Tiwtorial ESTEP. Yr holl ddysgwyr llawn amser yn ymwneud â'r Cwricwlwm pwnc-benodol	Mawrth 2024 Mawrth 2024 Mawrth 2024 Mawrth 2024	Rhagfyr 2026 Rhagfyr 2026 Mehefin 2026	PC: C / UDd: CS PC: C / RhSC PC: C UDd: CS	
1.2 Mae rhaglenni tiwtorial a gweithgareddau cwricwlwm ehangach yn adlewyrchu effaith hiliaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl wyn, ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad gwrth-hiliol.					
1.2.1 Cynnal adolygiad o ddeunydd presennol y tiwtorial E-step gan nodi lle gallai fod angen gwelliant pellach.	Adolygu cynnwys y tiwtorial E-step drwy samplu tymhorol.	Mawrth 2024	Hydref 2026	UDd: CS	

1.2.2 Datblygu adnoddau fel rhan o'r adran Dinasyddiaeth Fyd-eang neu greu adran newydd ar gyfer grymuso gwerthoedd ac ymddygiadau gwrth-hiliol. Ar y rhaglen ESTEP ar hyn o bryd, prin yw'r wybodaeth am 'Ddinasyddiaeth Fyd-eang.'	Cynnal adborth grŵp ffocws llais y dysgwr ar sut mae tiwtorial ESTEP yn ymgorffori / nodi ymwybyddiaeth.	Mawrth 2024	Mehefin 2026	PC: C	
1. 2. 3 Rheolwyr Sgiliau ac Addysgu a Dysgu i gydweithredu â Chonsortia Dysgu Cyfunol i alluogi cwmpas ehangach o ddeunyddiau, adnoddau a chyfleoedd dysgu digidol.	Defnyddio data a nodir yn y pecyn adnoddau Gwrth Hiliaeth i ddadansoddi i ba raddau mae'r adnoddau presennol yn cael eu defnyddio.	Mawrth 2024	Mehefin 2026	PC: C /RhSC	
1.2.4. Gwella'r adran 'Ffordd o Fyw a Lles Personol' gyfredol i sicrhau sylw i Mae Bywydau Du o Bwys, Canllaw Hanes Pobl Dduon a Mis Hanes Pobl Dduon. Datblygu adran benodol ac ychwanegol ar wrth-hiliaeth.	Cydweithredu â cholegau AB eraill – Adroddiad ansoddol ar effaith bosibl adnoddau a rennir	Mawrth 2024	Rhagfyr 2026	RhSC	
1.2.5 Datblygu ymhellach gynnwys tiwtorial sy'n hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau gwrth-hiliol, a chynhwysiant.	Nodi meysydd o fewn y cwricwlwm lle bodlonir y pwynt gweithredu uchod drwy wiriad archwilio yn y cylch arsylwi blynyddol – Cynlluniau Gwaith Newydd.	Mawrth 2024	Medi 2026 Rhagfyr 2026	Tiwtoriaid	
1.2.6 Sicrhau bod digwyddiadau datblygu'r CGGH yn ganolog i raglen hyfforddi drawsgolegolol i hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau gwrth-	Gwneud defnydd o siaradwyr gwadd a darparwyr hyfforddiant allweddol ar adegau allweddol yn	Medi 2025		US: CACh / RhDDS	

hiliol fel rhywbeth sy'n ganolog i'r sefydliad.	ystod y flwyddyn academaidd mewn digwyddiadau DPP ar draws y Coleg gyda phresenoldeb gorfodol.				

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOL GRŴP COLEGAU NPTC 2022-2024

Nod 1: Cwricwlwm Adolygiad radical o gwricwla a chymwysterau AB i adlewyrchu gwerthoedd Cymreig cyfoes, gan ymgorffori pwysigrwydd hanes trefedigaethol a'i ddylanwad ar gymdeithas yn hanesyddol ac yn awr; effaith hiliaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Gwyn; y cyfraniadau a wneir gan bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at gymdeithas.					
CAM(AU) GWEITHREDU	MPGau	LLINELL AMSER		ARWEINYDD / TÎM	CYNNYDD
		DECHRAU	DIWEDD		
1.3 Mae'r dewis o strategaethau a chymwysterau asesu (gan gynnwys unedau dewisol) yn hyrwyddo cynhwysiant diwylliannol a gwrth-hiliaeth.					
1.3.1 Adolygu a gwerthuso prosesau asesu i nodi unrhyw ragfarnau posibl neu feysydd i'w gwella. 1.3.2 Sicrhau bod addasiadau rhesymol a chefnogaeth ychwanegol ar waith, yn unol â gofynion y corff dyfarnu, i ddysgwyr a allai wynebu unrhyw heriau e.e. rhwystrau iaith.	Data dysgwyr yn dangos gwelliannau yn y data cadw a chyrhaeddiad sy'n ymwneud â Myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r addasiadau rhesymol a'r gefnogaeth ychwanegol a roddwyd ar waith yn cydymffurfio ag anghenion unigol ar gyfer asesu – yn unol â JCQ a sefydliadau dyfarnu.	Mawrth 2024 Mawrth 2024	Rhagfyr 2026 Rhagfyr 2026	PC: A PC: A / CAADY / RhA	
1.4 Mae addysg bellach gyson o ansawdd uchel ar waith i ddiwallu anghenion mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gefnogi cynnydd i ddysgu lefel uwch a gwaith					
1.4.1 Datblygu ymhellach amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol sy'n gwerthfawrogi	Deunyddiau addysgu a dysgu wedi'u diweddaru i fod yn gynhwysol ac i	Mawrth 2024	Rhagfyr 2026	RhAD / RhSC	

amrywiaeth ddiwylliannol ac sy'n defnyddio adnoddau sy'n ymateb yn ddiwylliannol (yn unol ag 1.1).	ymateb i amrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol yn ein cymunedau. Data dysgwyr yn dangos gwelliannau yn y data cadw a chyrhaeddiad sy'n ymwneud â Myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.	Mawrth 2024	Medi 2026	PC: A / PY / PC: C / RhAD	

Nod 1: Cwricwlwm Adolygiad radical o gwricwla a chymwysterau AB i adlewyrchu gwerthoedd Cymreig cyfoes, gan ymgorffori pwysigrwydd hanes trefedigaethol a'i ddylanwad ar gymdeithas yn hanesyddol ac yn awr; effaith hiliaeth ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Gwyn; y cyfraniadau a wneir gan bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at gymdeithas.					
CAM(AU) GWEITHREDU	MPGau	LLINELL AMSER		ARWEINYDD / TÎM	CYNNYDD
		DECHRAU	DIWEDD		
1.5 Mae trefniadau dilysu cyrsiau / rhaglenni sefydliadol yn sicrhau bod cwricwla a chymwysterau (cynnwys, strategaethau asesu, modelau cyflwyno ac addysgeg) yn ddiwylliannol gynhwysol, yn adlewyrchu gwerthoedd Cymreig cyfoes ac yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth.					
1.5.1 Datblygiad proffesiynol ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â phrosesau dilysu (yn unol ag 1.1) i nodi unrhyw ragfarnau posibl.	Cofnodion DPP, cofnodion gwerthuso	Mawrth 2024	Rhagfyr 2026	PY / RhDS	
1.5.2 Annog diwylliant o gynhwysiant drwy gydol y prosesau dilysu ac ymgysylltu â grŵp amrywiol o randdeiliaid i ymgorffori amrywiaeth o safbwyntiau.	Mynychwyr prosesau dilysu – Gweithio gyda'r sefydliadau dyfarnu yn ystod y broses gymeradwyo a dilysu i sicrhau bod cymwysterau'n ddiwylliannol gynhwysol.	Mawrth 2024	Rhagfyr 2026	PC: A/ PY / PC: C / RhAD	

